

Monmouthshire Select Committee Minutes

Pwyllgor Perfformiad a Throsolwg Neuadd y Sir Brynbuga Dydd Llun, 21ain Tachwedd, 2022, 10.00 am

Cynghorwyr yn Bresennol

Cynghorydd Sir Alistair Neill (Cadeirydd)

Cynghorydd Sir: Jill Bond, Ian Chandler,
Tony Kear, Paul Pavia, Peter Strong,
Laura Wright, Sue Riley, Rachel Buckler,
Rachel Garrick

Swyddogion yn Bresennol

Hazel Ilett, Rheolwyr Craffu
Robert McGowan, Swyddog Polisi a Chraffu
Peter Davies, Prif Swyddog, Adnoddau
Frances O'Brien, Prif Swyddog, Cymunedau a Lle
Will Mclean, Prif Swyddog Plant a Phobl Ifanc
Jane Rodgers, Pennaeth Gwasanaethau Plant
Jonathan Davies, Rheolwr Cyllid Cyfrifeg Canolog
Ian Saunders, Prif Swyddog Gweithredu,
BywydMynwy
Mark Hand, Pennaeth Llundio Lle, Tai, Priffyrdd a
Llifogydd
Scott James, Rheolwr Caffael Strategol
Craig O'Connor, Pennaeth Cynllunio
Philip Thomas, Rheolwr Gwasanaethau Datblygu
Steve Robinson, Head of Procurement
Cath Fallon, Pennaeth Economi a Menter
Stacey Jones, Senior Accountant
Dave Loder, Rheolwr Cyllid
Tyrone Stokes, Rheolwr Cyllid
Nikki Wellington, Rheolwr Cyllid

Ymddiheuriadau: Cynghorydd Sir J. Watkins

1. Datganiadau o Fuddiant

Dim.

2. Fforwm Aqored i'r Cyhoedd

Ni dderbyniwyd unrhyw geisiadau.

3. Strategaeth Gaffael sy'n Gymdeithasol Gyfrifol:

Cyflwynodd Scott James a Steve Robinson yr adroddiad gan ateb cwestiynau'r aelodau ar y cyd â'r Aelod Cabinet Rachel Garrick.

Her:

Ar dudalen 1, mae Cas-gwent ar goll o'r rhestr o'r 6 prif anheddiad?

Ymddiheuriadau, gwall teipio yw hyn: Dylid cynnwys Cas-gwent.

O ran y 10 categori gwariant uchaf, oni fyddai dangos canrannau hefyd o fudd?

Mae'r siart yma'n cael ei ddal ar hyn o bryd, felly byddwn yn ystyried y sylwadau ynglŷn â'r canrannau.

A oes modd i ni gael mwy o fanylion ynglŷn â'r mesurau a'r targedau?

Bydd gofyn cymryd nifer o gamau bach o ran cynnydd er mwyn cyflawni e.e. carbon, sy'n her sylweddol ym mhob awdurdod. Rydym yn edrych ar y camau ymarferol y gallwn eu cymryd i gefnogi'r gwaith o gyflawni. Mae'r cynllun cyflenwi yn aeddfedu nawr o ran ei brif gynnwys ond y peth allweddol y dylid cytuno arno yw'r gefnogaeth ychwanegol y gallwn ei derbyn o bob rhan o'r awdurdodau - mae rhywfaint o adnodd ar gael o hyd. Mae'r gweithgareddau allweddol y dylid eu cyflawni wedi'u diffinio i raddau helaeth, ond mae angen rhoi sylw i'r elfennau yma o hyd. Mae gwaith teg yn faes ffocws allweddol ar gyfer y bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus newydd. Mae gwaith yn mynd rhagddo; mae rhai o'n swyddogion yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru ar ddatblygu'r cymalau cymdeithasol y bydd gofyn eu cynnwys mewn cytundebau. Y prif bwynt sy'n dod i'r amlwg yw pwysigrwydd gwaith dilynol o ran rheoli contract er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r cymalau dan sylw.

Oes gwahaniaeth rhwng y ddeddfwriaeth arfaethedig yn y DU ac yng Nghymru? Oni fydd deddfwriaeth y DU yn cael effaith ar Gymru?

Bydd deddfwriaeth llywodraeth y DU yn berthnasol i Gymru. Mewn ymgyngoriad â sector cyhoeddus Cymru, penderfynodd Llywodraeth Cymru y byddai'n gweithio gyda Llywodraeth y DU yn hytrach na datblygu ei rheoliadau ei hun. Mae'r gwaith o ddatblygu'r deddfwriaeth sy'n cyd fynd â'r mesur Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus yng Nghymru yn cael ei wneud ochr yn ochr â'r gwaith y mae Llywodraeth y DU yn ei wneud.

A yw'r strategaeth hon yn cynnwys neu'n cwmpasu ysgolion a phrynu ysgolion?

Nid yw prynu ysgolion yn cael ei eithrio o'r strategaeth.

Ydy'r cynllun cyflenwi yn wahanol ar gyfer pob awdurdod lleol neu a fydd papur cyffredin yn cael ei ailfrandio ar gyfer pob un?

Mae 3 strategaeth wedi cael eu datblygu ar y cyd. Mae drafft cychwynnol y strategaeth a'r cynllun cyflenwi wedi cael ei lywio gan Gaerdydd, ac fel arall - dyma'r fantais o gydweithio. Yn aml, rydym yn ceisio cyflawni'r un pethau ond rydym ar wahanol lefelau o ran aeddfedrwydd, h.y. os yw Caerdydd gam ar y blaen mewn maes penodol, gallwn ddefnyddio'r hyn y maent wedi ei ddysgu yn Sir Fynwy a Thorfaen ac elwa.

Pa fecanweithiau sydd ar waith ar gyfer monitro a gorfodi cydymffurfiaeth contract? Mae'n ymddangos bod y 7 amcan mewn seilos ar wahân – sut maen nhw'n cael eu hintegreiddio, er mwyn eu rhoi ar waith?

Un darn o waith a wnaed oedd edrych ar reolaethau allweddol prosesau llywodraethu; Mae sawl darn o waith yn mynd rhagddo. Mae gennym ddull llywodraethu cadarn yng Nghaerdydd felly rydym yn dewis elfennau y byddai Sir Fynwy yn elwa ohonynt ac yn edrych ar sut i'w cyflwyno yma. Bydd hyn yn ymwneud â darparu hyfforddiant a datblygu dogfennau a phrosesau. Bydd cyflwyno'r strategaeth yn cynnwys datblygu adnoddau ac addysg newydd. Byddem yn edrych i dynnu elfennau at ei gilydd e.e. cyfleoedd sy'n ymwneud â lleihau carbon, cynnwys gwerth cymdeithasol o fewn tendrau, ac ati. mae rheoli contract yn faes allweddol - mae gennym syniadau pendant ar sut i gyflwyno peth o hyn yn Sir Fynwy.

Yn ôl at y berthynas rhwng Caerdydd, Torfaen a Sir Fynwy - a fyddai'n fwy tryloyw i gael ein brandio fel strategaeth consortiwm prynu ar y cyd?

Rydym wedi cael y drafodaeth honno. O dan y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael newydd, bydd yn ofynnol i awdurdod gael strategaeth gaffael. Nid ydynt yn erbyn y syniad fod sawl awdurdod yn rhannu strategaeth, ond dewisom 3 strategaeth ar wahân - mae'r awdurdodau wedi gwerthfawrogi cael ffocws clir drostynt eu hunain. Ond gallwn edrych ar hyn wrth adolygu yn y dyfodol. Rhywbeth i'w gofio serch hynny, er mwyn cael strategaeth a rennir, mae'n rhaid i'r 3 awdurdod rannu'r un awydd.

Wrth ddadansoddi gwariant lleol, beth yw ffynhonnell y data? A oes modd cael golwg arni?

Rydym wedi gwella ansawdd ein data ar wariant a'r modd yr ydym yn ei ddadansoddi yn ystod y 10 mlynedd diwethaf, ac rydym wedi dechrau defnyddio ein profiad i gynorthwyo Sir Fynwy gyda'u data ar wariant. Mae'r data ar wariant lleol yn seiliedig ar wybodaeth cod post. Mae'r dadansoddiad wedi'i wneud gan adnodd o Gaerdydd sy'n gofalu am ddata Caerdydd.

A fydd hyn yn cael ei adolygu bob chwarter?

Byddwn yn ceisio gwella ansawdd, dibynadwyedd a mynediad at ddata. Rydym yn defnyddio adnodd o'r enw Power BI i gyflwyno llawer o'r data ar wariant, ac rydym wedi cyflwyno'r cylch cyntaf i'r Tîm Arweinyddiaeth Strategol yn Sir Fynwy. Byddwn yn mireinio ac yn gwella hynny dros y flwyddyn nesaf.

Sut mae'r gwariant blynyddol o £98m yn cymharu â'r blynyddoedd cynt?

Mae hyn wedi bod yn weddol gyson yn ystod y 2-3 blynedd ddiwethaf - tua £100m.

O ran trosiant uchel staff a chymysgedd o sgiliau, a oes diffyg? A oes angen buddsoddi mewn staff? Beth yw'r darlun presennol o ran trosiant staff?

Mae recriwtio a chadw swyddogion caffael o fewn llywodraeth leol Cymru yn un o'r problemau sy'n peri'r her fwyaf. Fel arfer, gall pobl ennill cyflog sydd £10-20k yn fwy wrth weithio y tu allan i lywodraeth leol. Yng Nghaerdydd, rydym wedi mynd ati'n rhagweithiol i roi rhaglen lleoliad ar waith ar y cyd â Phrifysgol De Cymru. Mae'r rhaglen yn anfon dau fyfyrwr atom i weithio yn ystod eu blwyddyn i fwrdd. Mae hyn yn golygu ein bod wedi gallu recriwtio, ar sail 'datblygu ein staff ein hunain.' Pe byddem yn mynd allan i'r farchnad agored ni fyddai modd i ni recriwtio staff sy'n diwallu'r safon gofynnol. Mae'n sicr yn her. Ar hyn o bryd mae gennym hysbyseb allan am 4 rheolwr categori newydd.

O ran y gymysgedd o sgiliau, mae'n ddyletswydd ar bob un ohonom o fewn y gydweithrediad yn ystod y blynyddoedd nesaf i weithio ar sylfaen sgiliau pobl. Er enghraifft, mae angen hyfforddiant ar bob un ohonom ar ddal carbon ac ar sgysiau gyda diwydiannau am gynlluniau lleihau carbon. Rydym yn fwy nag ymwybodol o'r angen am hyfforddiant ychwanegol. Mae angen i'n deiliaid cyllideb ddeall y farchnad y maent yn caffael ynddi.

Un o brif amcanion y contract gydag Atebion oedd manteisio ar y wybodaeth a'r gallu yma yn y tymor byr, a thros y tymor hir, 'datblygu ein hunain' a datblygu ein capasiti a'n gallu ein hunain. A fydd y cynllun cyflenwi'n cyffwrdd â'r datblygiad hwnnw, neu a fydd hyn yn cael ei gynnwys mewn papur ar wahân?

Rydym yn mynd ati'n frwd i recriwtio ar hyn o bryd, gan weithio gyda'r brifysgol leol i ddarparu llif o dalent i'r tîm. O ran yr awdurdod ehangach, mae gan Sir Fynwy adnodd caffael datganoledig. Rydym wedi cael nifer o drafodaethau am y ffordd orau y gallwn gefnogi'r adnodd yma. Mae sesiwn hyfforddi'n cael ei gynnal yr wythnos hon i gefnogi datblygiad swyddogion o Sir Fynwy sy'n ymwneud yn rheolaidd â gweithgarwch caffael, ac rydym eisiau eu hadborth ar y wybodaeth yr ydym yn ei darparu - ai dyma'r wybodaeth y maent ei hangen? Mae gennym hefyd fenter o'r enw Prynu'n Gyfrifol yr hoffem ei datblygu ar draws y 3 awdurdod.

A fu unrhyw gyd-gynhyrchiad neu adborth o ran ys SMEs (busnesau bach i ganolig) a'r trydydd sector o fewn ein hawdurdod wrth lunio'r strategaeth?

Nid ydym wedi cynnwys sefydliadau yn uniongyrchol yn natblygiad y strategaeth. Ar gyfer busnesau lleol, rydym wedi canolbwyntio ar wella hygyrchedd a gwelededd cyfleoedd, ceisio gwneud y broses yn haws, a'u hannog i weithio gyda sefydliadau eraill fel Busnes Cymru. Fel rhan o'r cynllun cyflenwi rydym wedi nodi camau penodol gyda'r nod o ddarganfod, drwy holi SMEs, ym mha feysydd y mae angen cymorth arnynt. Er enghraifft, gyda Cwmpas, byddwn yn cynnal arolwg ar draws busnesau bach a'r trydydd sector (yng Nghaerdydd, i ddechrau) er mwyn deall beth yw'r prif rwystrau o ran cynnal busnes gyda Chaerdydd. Hoffem wneud y gwaith yma gyda Sir Fynwy a Thorfaen wedyn.

Wrth ddadansoddi gwariant lleol, mae 57% o fewn rhanbarth Sir Fynwy/Gwent – ble mae'r 43% arall?

Mae gennym y wybodaeth ynghylch lle nad yw gwariant yn cael ei gadw yng Nghymru. Un darn o waith o fewn y cynllun cyflenwi yw edrych ar ble mae gwariant yn mynd y tu allan i Gymru, boed yna awdurdodau sy'n cadw mwy o'r gwariant hwnnw, a pham. Wedi i ni ddod yn ymwybodol o feysydd sy'n gwario y tu allan i Gymru'n rheolaidd, rydym yn awyddus i weld pa gyfleoedd a allai fodoli o ran gweithio gyda'n cydweithwyr o fewn datblygu economaidd a'r CCR er mwyn gweld ble mae cyfleoedd i ddatblygu rhywfaint o'r capasiti hwnnw yng Nghymru hefyd.

O ran yr economi sylfaen, beth yw ein meddylfryd o ran tyfu'r farchnad gomisiynu honno'n lleol, neu edrych ar gydbwysu mwy o ddarpariaeth yn fewnol, yn yr hirdymor?

Rydym wedi cael trafodaethau eisoes yn Sir Fynwy am fwyd, er enghraifft, gan gydnabod ei fod yn faes blaenoriaeth. O ran darpariaeth fewnol, mae ffocws mawr ar fewnoli ar hyn o bryd. Mae sut yr ydym yn datblygu ein gweithluoedd er mwyn diwallu'r angen wrth symud ymlaen yn her allweddol, ac yn rhywbeth yr ydym wedi canolbwyntio arno yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Gellid rhoi mwy o eglurder ar rai pethau o fewn yr adroddiad: 'effaith hirdymor' – sy'n golygu effaith negyddol; osgoi jargon diangen er mwyn sicrhau y gall trigolion ddeall yn rhwydd; Crybwyll 'argyfyngau hinsawdd a natur', er mai dim ond yr argyfwng hinsawdd sydd wedi ei ffurfioli gan y cyngor.

Byddwn yn codi'r pwyntiau yma.

O'r £98m, mae £70m ar adnoddau dynol – allwch chi egluro hyn?

Mae AD yn gategori eang sy'n cynnwys gwario ar staff asiantaeth, contractau gwahanol ar gyfer ystod o wasanaethau proffesiynol, ac ati. Enw'r strwythur categori yw 'ProClass', a ddefnyddir gan Atamis, system dadansoddi gwariant cenedlaethol dan nawdd Llywodraeth Cymru – mae'r data'n mynd o Sir Fynwy i atamis, ac yn ôl atom. Mae angen i ni ystyried a yw AD yn cael ei ddisgrifio yn y modd mwyaf defnyddiol.

O ran y gwaith cydweithredol ers 2021 gyda Caerdydd a Thorfaen: a oes digon o amser wedi mynd heibio eto i'n galluogi i adnabod llwyddiannau? A ellir cyfathrebu gyda thrigolion ar unrhyw beth?

Dyw pethau ddim wedi symud ymlaen mor gyflym ag y byddem wedi hoffi. Mae angen i ni ddatblygu gwelliannau o'r gwaelod i fyny er mwyn symud modelau gweithredu sylfaenol yn eu blaen. Rydym wedi canolbwyntio ar wneud cynnydd o ran datblygiad y strategaeth, gwella gwelededd ac adrodd ar ddata gwariant, hyfforddiant, ac ati. Roeddem wedi gobeithio plethu rhywfaint o hynny gyda datblygiadau technoleg, yn enwedig mewn perthynas â'r prosesau sy'n sail iddynt, ond mae rhywfaint o'r gwaith hwnnw wedi'i roi o'r neilltu am y tro. Mae llawer o

gynnydd wedi ei wneud a bydd yn dwyn ffrwyth o fewn y 6 mis nesaf. Mae cefnogi darpariaeth o ran y biblinell contract wedi bod yn bwysig hefyd; Dylai'r broses recriwtio sy'n mynd rhagddi ein rhoi mewn sefyllfa gref wrth gamu i mewn i'r flwyddyn nesaf. Mae'r hyn yr ydym wedi ei ddysgu er budd y 3 awdurdod. Mae carbon yn faes sy'n peri trafferth i bawb ond o ran ein ffordd o feddwl, ffocws a chaffael gwybodaeth rydym mewn sefyllfa yr un mor gryf ag unrhyw le arall ar draws y sector cyhoeddus yn ne Cymru. Yr her yw troi ein bwriad a'n cynllun o ran ble yr ydym eisiau mynd yn realiti.

Crynodeb y Cadeirydd:

Dylai swyddogion gofio bod trigolion Sir Fynwy eisiau gwybod pam ein bod wedi gwneud pethau a beth yw'r buddion - efallai y byddant eisiau gofyn pa rôl y mae caffael yn ei chwarae yn hyn o beth. Bydd Perfformiad Caffael yn dod i'r pwyllgor ar y 17eg o Ionawr - bydd modd i swyddogion roi mwy o eglurder ar syniadau a llwyddiannau'r tîm bryd hynny.

Cytunodd y pwyllgor i gynnig yr adroddiad.

4. Adroddiad Perfformiad Blynyddol ar Gynllunio:

Cyflwynodd Phil Thomas y cyflwyniad ac atebodd gwestiynau'r aelodau gyda Craig O'Connor a Mark Hand.

Her:

Yn hytrach na chyfeirio at y 5 cam gweithredu dro ar ôl tro, gellid cyfuno a chrynhai er mwyn ei wneud yn haws i'w ddarllen ee ar un dudalen. Efallai y gellid gwneud targedau'n fwy realistig a chyraeddadwy o ran yr adnoddau sydd ar gael. Efallai y bydd ffyrdd mwy creadigol o gyflawni'r camau yma o ystyried yr adnoddau e.e. yng Ngham 1, yn hytrach na bod yn bryderus am yr adnodd sydd ei angen i gyflwyno'r data ar y gwaith ar y gorchymyn cadwedigaeth, gallai'r camau ymwneud â diweddarau nawr a llenwi'n ôl-weithredol pan fo hynny'n bosibl.

Nodwn y pwyntiau yma ac rydym yn cytuno, yn benodol i wneud yr adroddiad yn fwy cryno yn y dyfodol.

O ran 4.9.4, Heol Wonastow, fel enghraifft o ddatblygiadau mawr: does dim palmant o'r datblygiad hwnnw i ganol y dref a dyw llwybrau teithio llesol dal ddim yn eu lle - felly a yw'r datblygiad hwnnw wedi'i 'gwblhau'?

Ydy, mae datblygiad yn cael ei ystyried 'wedi'i gwblhau' unwaith y bydd y gwaith o adeiladu tai wedi'i gorffen. Mae'r cytundeb cyfreithiol sy'n gysylltiedig â'r datblygiad yn cynnwys gwelliannau o ran darparu'r gwasanaeth hefyd, gwneir hyn ochr yn ochr. Mae cysylltiad i gerddwyr o Wonastow Road ac mae'r cyswllt Teithio Llesol wrthi'n cael ei adeiladu ar hyn o bryd.

Sut mae'r swyddogaeth ehangach wedyn yn cael ei gynnwys o fewn yr Adroddiad Perfformiad? Mae'r wybodaeth am Wonastow Road yn grynodeb sy'n ymwneud â'r gwaith y mae'r Cynllun Datblygu Lleol (LDP) yn ei wneud ar fonitro safleoedd h.y. faint o dai sydd wedi'u hadeiladu ar ddatblygiad penodol, yn hytrach na'r materion mwy cynnil yn ymwneud â darpariaeth seilwaith. Mae seilwaith cymdeithasol yn aml yn dod ar ôl i bobl yn ddechrau byw yno, gan y bydd angen i'r datblygwyr werthu rhai o'r tai yn gyntaf er mwyn ariannu rhai elfennau cynllun. Nid yw'r elfen gynaliadwyedd yn rhan o 12 dangosydd safle Llywodraeth Cymru, at ddibenion adroddiad perfformiad.

A yw'r pwynt gweithredu ar orfodi'n ddigon cadarn i fynd i'r afael â'i dan-berfformiad presennol? A oes mwy o fanylion o ran mynd i'r afael â pherfformiad gwael a'r syniad ymhlith trigolion fod tan-berfformiad?

Mae dau 'goch' o ran gorfodaeth, sy'n nodi fod angen gwella. Rydym yn ymwybodol iawn o hynny. Cafodd y pandemig, yn enwedig, effaith ar ein darpariaeth o wasanaethau y llynedd, yn enwedig gan fod nifer o gydweithwyr â phlant i ffwrdd am gyfnodau penodol, ac roedd hynny'n anodd. Rydym eisoes wedi gweld gwelliant o ran perfformiad gorfodi i 'deg', ac rydym bellach yn gweithredu gyda capasiti llawn, felly gobeithio y bydd hyn yn rhoi hyder ein bod yn gwella a bydd dangosiad llawer cryfach yn adroddiad y flwyddyn nesaf.

Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar Systems Thinking, ac yn tynnu sylw at y cwsmer fel yr ymgeisydd cynllunio - ond onid y gymuned ddylai ein prif gwsmer fod?

Mae hwn yn bwynt da iawn. Pan fyddwn yn siarad am gwsmeriaid mewn cyd-destun cynllunio, rydym yn siarad am yr ymgeisydd, y datblygwr, y gymuned, cynghorwyr tref, trigolion lleol a chymdogion (mae trafodaethau manwl yn digwydd gyda hwy), cynghorwyr sir, ac ati, felly rydym yn sicrhau aelodau bod pawb sy'n cymryd rhan mewn prosesau Cynllunio yn cael eu trin yn gyfartal, a byddwn yn parhau i weithio felly.

Pan fyddwn yn gweld fod tor rheol wedi digwydd o ran cynllunio, ond yn penderfynu peidio â chymryd camau pellach - pa mor dryloyw yw'r meini prawf, a pha mor gadarn, er mwyn sicrhau na ellid gwneud cyhuddiadau o ffafriaeth?

Yn yr achosion yma, eir ag adroddiad llawn i banel sy'n cynnwys Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio a 2 aelod o'r pwyllgor, a gwneir penderfyniad ar y cyd â swyddogion. Caiff y cyfarfod ei ddogfennu a'i gofnodi er mwyn sicrhau fod y broses o wneud penderfyniad yn un gadarn.

Dyw llais trigolion nac ymgeiswyr i'w glywed yn yr adroddiad, ac nid yw'n ymddangos bod y gwersi a ddysgwyd wedi cael eu bwydo i mewn. Sut gallwn fod yn sicr fod y swyddogaeth Cynllunio y gorau y gall fod?

Mae Cymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru yn gwneud darn o waith sy'n ymwneud â Data Cymru. Caiff arolygon cwsmeriaid ar y modd y mae'r swyddogaethau gwasanaeth Cynllunio yn gweithio eu hadolygu. Rydym wedi bod yn rhan o ail-gychwyn y darn yma o waith, er mwyn sicrhau y gallwn adrodd yn nes ymlaen sut mae pethau wedi mynd. O'r blaen roeddem hefyd yn gwneud holiaduron ar gefn ceisiadau - efallai y gallem ail-gychwyn, fe fyddwn yn rhoi ystyriaeth i hyn.

A ydym yn cynnal cyfweiliadau ymadael, er mwyn deall y rhesymeg dros staff sy'n symud ymlaen, a sut y maent yn teimlo bod yr adran yn gweithredu?

Nid problem y mae MCC yn unig yn ei wynebu yw trosiant staff, mae'n broblem ar draws y gwasanaeth Cynllunio yn gyffredinol. Aeth y staff a adawodd y llynedd am ddyrchafiadau mewn rolau rheoli ac arwain. Mae'n golygu bod prinder swyddogion cynllunio ar draws y rhanbarth a bod pawb yn cystadlu o ran recriwtio i'w timau. Nid ydym yn ymwybodol o unrhyw adborth negyddol sydd wedi deillio o gyfweiliadau ymadael. Penderfynodd rhai o'r aelodau staff hyn oedd yn ffynnu wrth ryngweithio gyda'r tîm ymddeol unwaith y bu newid o ran gweithio i ffwrdd o'r swyddfa yn ystod y pandemig.

Mae'r porth wedi gwella ond caiff ei amlygu fel maes i'w wella ymhellach - ydy'r gost yn hyn o beth wedi cael ei hystyried?

Does dim gwaith wedi'i wneud ar y costau eto. Mae arbenigedd o fewn y tîm sy'n ein galluogi i wella'r wefan, felly byddwn yn ystyried defnyddio'r arbenigedd yma yn hytrach na defnyddio darparwyr allanol.

Gan bwysleisio, unwaith eto, fod gorfodaeth yn faes mor bwysig, sy'n effeithiol a chyfiawn.

Rydym yn cytuno'n llwyr. Gan fod adnoddau llawn bellach o fewn y tîm, bydd mwy o gamau yn cael eu cymryd yn gyflymach. Byddwn yn gallu ymateb a monitro'n well, a bydd hyn yn cael ei amlygu drwy'r gwelliannau sylweddol sydd yn y dystiolaeth yn barod h.y. ffigurau Gorffennaf/Medi.

Gyda'r aneddiadau tai mawr arfaethedig o fewn y LDP, pa ymgysylltu sydd ar y gweill gyda thrigolion a phryd mae'n dechrau?

Bydd papur yn mynd i'r cyngor llawn ar y 1af o Ragfyr. Bydd y papur yn gofyn i'r Cyngor gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar y strategaeth a ffefrir: bydd hwn yn ymgynghoriad 8 wythnos gyda chymunedau lleol, mynd i neuaddau pentref yn ardaloedd y prif anheddu, gwneud digwyddiadau rhithwir gyda chynghorau tref a chymuned, ac ati. Byddwn yn ceisio ymgysylltu a chasglu cymaint o farn â phosib yn ystod y cyfnod yma. Unwaith y byddwn yn cyrraedd y cam Adneuo'r Cynllun, byddwn hefyd yn cynnal ymgynghoriad llawn, gan edrych ar fframwaith y polisi cynllunio a'r union safleoedd y byddwn yn mynd amdanynt.

Pa fesurau fydd yn rhaid i ddarpar geisiadau cynllunio eu hystyried o ran ansawdd dŵr a lliniaru'r broblem ffosffadau?

Ers cyflwyno'r rheoliadau ansawdd dŵr newydd, mae CNC wedi cyflwyno canllawiau pellach. Mae angen i ddatblygwyr ddangos tystiolaeth o niwtraliaeth faetholion, a dangos na fydd eu datblygiad yn creu cynnydd net mewn ffosffadau. Bydd angen i unrhyw gynnig yr ydym yn ei dderbyn ar gyfer datblygiad gymryd hyn i ystyriaeth, a byddwn yn ymgynghori â chydweithwyr bioamrywiaeth yn fewnol yn ogystal â gwneud asesiad Rheoliadau Cynefinoedd ar y cynnig datblygu ac o bosibl yn ymgynghori â CNC. O ran y strategaeth a ffefrir wrth symud ymlaen, nid ydym yn bwriadu dyrannu tir ar gyfer datblygiad newydd yn nalgylch Gwy gan nad oes datrysiad strategol ar ffosffad ar hyn o bryd. Ond yn nalgylch Brynbuga, mae'n ymddangos fod datrysiad yn cael ei gynnig ar gyfer system trin Dŵr Gwastraff Llan-ffwyst, felly gallai dalgylch Wysg ymdopi â datblygiad arall, ond does dim o'r fath yn cael ei gynnig yn ardal Trefynwy ar hyn o bryd. Rydym hefyd yn eistedd ar Fwrdd Rheoli Maetholion Gwy a Bwrdd Partneriaeth Dalgylch Wysg, ac yn edrych ar ddatrysiadau gan gynnwys rheoli tir.

Sut mae diffyg dŵr h.y. cyflenwad dŵr, yn cael ei ffactora ar gyfer y datblygiadau mwy?

Rydym yn ymgynghori â Dŵr Cymru a chydweithwyr amgylcheddol ar ddatblygiadau mawr ond nid yw hyn wedi bod yn broblem fawr hyd yma. Byddwn yn cadw llygad ar y mater, a bydd ymgynghorai statudol yn ein rhoi gwybod i ni os bydd rhywbeth yn codi.

O ran 2.13, 2.14 a 2.16: Mae nifer yr oedolion ifanc yn gostwng, mae lefel uwch o 85+mlwydd oed ac mae'r nifer yn codi, mae 40% o drigolion sy'n weithgar yn economaidd yn cymudo allan tu allan, ac ati. Sut ydych chi'n sicrhau ein bod yn cysylltu'r pwyntiau yma a'r data sylfaenol gyda gwasanaethau fel y gallwn fanteisio ar gyfleoedd a mynd i'r afael â'r heriau mewnol yr ydym yn eu hwynebu?

Mae'r pwyntiau yma i gyd yn strategol iawn a dyma ble daw'r RLDP i mewn: bydd y ddogfen hon yn allweddol o ran sicrhau ein bod yn mynd i'r afael â'r materion hynny. Bydd y papur sy'n mynd i'r cyngor ar y 1af o Ragfyr yn hanfodol yn hyn o beth; mae'r strategaeth y mae'r cyngor yn ei chyflwyno yn ceisio mynd i'r afael â'r materion hynny mewn modd dramatig drwy

gydbwysu ein demograffeg, gan sicrhau bod gennym y datblygiad cywir yn y manau cywir, gyda chynlluniau sy'n canolbwyntio ar dai sydd â chysylltiadau da ac sy'n fforddiadwy. Mae angen i'r aelodau ganolbwyntio ar y ddogfen honno, gan sicrhau ei bod yn addas ar gyfer mynd i'r afael â'r materion strategol hynny.

Yn 2.6, mae sylw am ymateb i'r boblogaeth sy'n heneiddio gyda thai fforddiadwy, ond onid yw AH yn cael ei anelu'n fwy at y boblogaeth iau?

Mae polisiâu o fewn y cynllun datblygu sy'n sicrhau fod cynlluniau ar gyfer tai fforddiadwy yn eu lle, a fod cyfran o AH ar y safleoedd strategol mwy. Rydym yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr o fewn y maes Tai sy'n gwbl ymwybodol o'r angen sydd gennym o ran tai. Pan fyddwn yn negodi cynlluniau, caiff hyn ei wneud ar sail mewnbwn gan y tîm Tai, felly mae'r gymysgedd o AH sy'n cael ei gynnig yn adlewyrchu'r angen am y tai yma. Mae hyn yn ein galluogi i ddarparu ar gyfer cartrefi iau a chartrefi hŷn. Mae yna safleoedd lle rydym wedi caniatáu byngalos er mwyn darparu ar gyfer y boblogaeth hŷn neu'r rhai sydd ag anableddau; Mae fflatiau ar y llawr gwaelod yn addas ar gyfer y gymuned hŷn hefyd. Rydym yn ceisio creu cymunedau cytbwys, yn hytrach na chynlluniau AH sy'n darparu ar gyfer preswylwyr iau yn unig.

A oes angen Asesiad o'r Effaith Integredig ar yr adroddiad?

Ni wnaed asesiad o'r effaith ar gyfer yr adroddiad yma gan mai adrodd ar berfformiad yn unig yr oedd swyddogion yn hytrach nag adrodd ar newid i bolisi. Bydd un, felly, yn cael ei wneud ar gyfer yr RLDP. Serch hynny, **bydd swyddogion yn gofyn eto a oes gofyniad i ddarparu IIA ar gyfer pob adroddiad.**

A oes posibil derbyn hyfforddiant ar Orfodaeth er mwyn sicrhau fod Cynghorwyr yn deall beth sy'n fater gorfodi, a beth nad yw'n fater gorfodi?

Rydym yn hapus i ddarparu hyfforddiant i bob aelod.

O ran adborth cwsmeriaid: o'r 21 cwyn, penderfynwyd nad oedd cyfiawnhad dros yr un ohonynt - beth yw'r broses o ran diystyru cwynion?

Mae Cam 1 yn ymchwiliad mewnol, sy'n gyflym. Mae llawer o gwynion gan unigolion nad ydynt yn hapus gyda'r penderfyniadau yr ydym wedi'u gwneud, ond mae'r mwyafrif yn derbyn ein hesboniadau. Y lefel nesaf yw Cam 2, bydd swyddog annibynnol o fewn y cyngor, nad ydym yn gweithio'n agos â hwy, yn edrych ar y gwyn, a byddant yn cynnal archwiliad gwrthrychol ac annibynnol. Sylwer, dyma broses gwynion yr Awdurdod cyfan, nid proses arbennig ar gyfer y broses Gynllunio.

Crynodeb y Cadeirydd:

Mae hygyrchedd dogfennau ar gyfer trigolion yn bwysig iawn. Gellir osgoi dyblygu gwybodaeth a rhoi gormod o wybodaeth drwy lunio pwyntiau cryno sydd wedi'u gosod allan yn gliriach yn y dyfodol. Mae swyddogion wedi cytuno i wneud hyn. Ond mae gwybodaeth ardderchog a defnyddiol ar gael hefyd, felly diolch i swyddogion, yn enwedig o ystyried yr anawsterau y maent wedi'u hwynebu yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Dymunai'r aelodau ddiolch i'r swyddogion am eu cefnogaeth a diolch am y berthynas sy'n bodoli rhwng y swyddogion a'r aelodau.

Efallai y gellir creu ffurflen wedi'i hawtomeiddio y gellid ei llenwi ar ôl i gais gael ei gwblhau, er mwyn casglu adborth gan gwsmeriaid a chreu gwrthrychedd. Efallai y byddai'n werth cael gwasanaeth o awdurdod cyfagos i adolygu sut y mae ein cwynion yn cael eu trin, er mwyn ychwanegu lefel o wrthrychedd allanol.

Cytunodd y pwyllgor i gynnig yr adroddiad.

5. Adroddiad Monitro Cyllideb Mis 6

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet Rachel Garrick a Jonathan Davies yr adroddiad gan ateb cwestiynau'r aelodau gyda Tyrone Stokes a Will Mclean.

Her:

Wrth i ni ddod â'r flwyddyn ariannol hon i ben pa elfen o'r cronfeydd wrth gefn arfaethedig y gellir ei defnyddio? A yw'n £16.6m? Ai'r cronfeydd wrth gefn yw'r prif adnodd sy'n cael ei ddefnyddio i ddelio gyda'r gorwariant cost sy'n cael ei ragweld ar hyn o bryd? Yw hynny'n 'gadarn' mewn gwirionedd?

Roedd ail-lenwi cronfeydd wrth gefn yn ystod y ddwy flynedd ariannol ddiwethaf yn digwydd yn bennaf oherwydd y cyllid a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru: fe wnaethant nodi risgiau i'r gyllideb y byddai awdurdodau'n eu hwynebu wrth gamu i mewn i'r flwyddyn bresennol, yn arbennig mewn perthynas â cholledion incwm gofal cymdeithasol, ac effeithiau eraill y pandemig. Roedd gennym ddisgwyliad bob amser y byddai cronfeydd wrth gefn yn cael eu defnyddio i dalu am wariant eleni. Ni wnaethom gynnwys hyn wrth osod y gyllideb gan fod ansicrwydd ynglŷn â sut y byddai'r risgiau dan sylw'n ymddangos o ran amseriad a chost. Er mwyn egluro'r adran ar y cronfeydd wrth gefn o fewn yr adroddiad, a'r lefel ar ddiwedd y flwyddyn hon: pe byddem yn defnyddio cronfeydd wrth gefn fel yr amlinellir yn y cynllun adfer cyllideb byddai'n gadael cronfeydd wrth gefn referniw gyda £21.6m ynddynt. Yn y siart, rydym wedi ceisio dangos yr amcanestyniad a'r risg pe na byddai unrhyw gamau cywiro yn cael eu cymryd – mae'n rhesymol tybio y byddai angen cefnogaeth bellach arnom pe na byddem yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r sefyllfa honno.

Bydd ychydig llai na £2.2m o arbedion yn deillio o leihau neu ailgynllunio gwasanaethau - ai swyddi gwag sydd heb eu llenwi yw'r rhain yn bennaf? Onid oes angen ailgynllunio mwy sylweddol felly?

Er bod rhywfaint o waith yn parhau gyda swyddi gwag o fewn y gweithlu nid yw'n rhan sylweddol o'r cynllun adfer: byddai'r mwyafrif ble mae gwasanaethau wedi nodi ffyrdd amgen neu hyblyg o gynhyrchu incwm, boed hynny drwy grantiau neu gytundebau gyda phartneriaid ar y cyd. Rydym wedi dechrau cynnal sgysiau gyda gwasanaethau am ddarlun tymor canolig eu modelau gwasanaeth, o ystyried y diffyg yn y gyllideb wrth symud ymlaen, ond mae angen eu datblygu'n gyflym.

Beth yw'r cynlluniau a ragwelir ar hyn o bryd o ran cynnydd yn nhreth y cyngor y flwyddyn nesaf?

Nid yw'r cabinet wedi ystyried lefelau treth cyngor ar gyfer y flwyddyn nesaf. Rydym yn mynd trwy'r broses gyllidebol ar hyn o bryd, gyda llawer o ansicrwydd am gyllid a phwysau costau ar gyfer y flwyddyn nesaf; yn benodol, bydd goblygiadau yn dilyn ddatganiad yr Hydref o ran cyllid y flwyddyn nesaf, ac fe fydd cyllideb Llywodraeth Cymru sy'n cael ei chyhoeddi ym mis Rhagfyr yn rhoi eglurder pellach. Felly, er y gallwn wneud rhagdybiaethau cynllunio am lefelau treth y cyngor, mae angen i'r pethau hynny ddod at ei gilydd er mwyn i ni allu meddwl beth allai'r gyfradd fod y flwyddyn nesaf.

Rydym mewn sefyllfa lle mae nifer o risgiau wedi'u gwireddu; Yn anffodus, y llynedd fe ddewisom gynnydd o 2.9%, pan ddechreuodd y weinyddiaeth y broses o gynllunio'r gyllideb, gan wybod bod chwyddiant tua 5.1% a'i fod wedi dringo i 7% erbyn iddyn nhw osod y gyllideb

honno. Mae angen i ni werthfawrogi'r raddfa: ni fydd y broblem yn cael ei datrys drwy godi treth cyngor e.e. £700k yn unig y bydd cynnydd o 1% yng nhreth y cyngor yn ei gynhyrchu. Yr hyn sydd angen i ni ei drafod felly yw cyllid, a'r penderfyniadau anoddach y bydd angen i ni eu gwneud. Ond mae hynny'n fwy perthnasol ar gyfer y drafodaeth ar y gyllideb yn hytrach na mis 6.

Ond y dreth gyngor ydy'r prif beth y mae trigolion yn edrych at y cyngor am eglurhad yn ei gylch?

Mae angen i gynghorwyr ysgwyddo'r cyfrifoldeb o ran trafod yn onest gyda thrigolion ynglŷn â beth all treth y cyngor ei gyflawni a beth nad oes modd iddo ei gyflawni.

Er eglurder, fe wnaeth y weinyddiaeth flaenorol osod y cynnydd i dreth y cyngor ym mis Mawrth pan oedd chwyddiant yn 7%

Ie, dyna ffigur y Mynegai Prisiau Defnyddwyr ar gyfer mis Mawrth.

Yn y pwyllgor Pobl diwethaf, nododd pennaeth Gwasanaethau Plant y byddai'r gwasanaeth yn parhau i weithredu yn yr un modd. Gan gofio'r gorwariant enfawr, a ddylid ail ystyried hyn ac ystyried hyn wrth wneud cynlluniau at y dyfodol?

Rydym wedi bod mewn trafodaethau gyda Phrif Swyddog Gofal Cymdeithasol, gan edrych ar y blaen-strwythur o ystyried y cyfyngiadau ar ein cyllideb yn y tymor canolig. Bydd rhai o'r pethau yma'n cymryd llawer mwy o amser i'w cyflwyno nag eraill. Mae camau y gallwn eu cymryd ar unwaith er mwyn cynyddu effeithlonrwydd neu gymedroli costau ond mae'r galw o fewn y maes hwn yn gymhleth ac mae'n cynyddu, felly mae gwneud y newidiadau yma o fewn yr hinsawdd dan sylw'n heriol iawn. Rydym wedi cychwyn sgysiau ynglŷn â chynyddu ein mesurau ataliol neu weithio gyda phartneriaid rhanbarthol i edrych ar gyfleoedd eraill i leihau costau.

Yr hyn sy'n gyrru'r gost fwyaf o ran yr alldro yw lleoliadau cost uchel a chymhleth i blant, a'r defnydd o staff asiantaeth er mwyn llenwi swyddi gwag. Mae ymgynghoriad helaeth wedi bod ar y cynllun adfer o fewn Gwasanaethau Plant ac mae hyn wedi cael ei yrru gan y Prif Swyddog. Rhai o'r pethau uniongyrchol y gallwn edrych arnynt yw cynnal trafodaethau gydag ABHB ar ofal iechyd parhaus, a chyllido a darparu gwasanaethau ar gyfer y lleoliadau cost uchel dan sylw – efallai y gallwn gymryd rhai lleoliadau o du allan i'r sir neu roi hwb i rai o'r darpariaethau er mwyn ceisio dod â rhywfaint o'r gwaith sydd eisoes wedi'i gynllunio yn ei flaen, a'i gyflymu yn ystod y flwyddyn. Mae angen i ni fod yn ymwybodol bod 4 mis ar ôl yn y flwyddyn ariannol.

A oes modd i ni gael gwell dealltwriaeth o'r her o ran capasiti wrth fynd ar ôl cyllid grant?

Yn fewnol, rydym yn darparu cymorth cyllid, pan mae modd i ni wneud hynny, er mwyn galluogi gwasanaethau, lle y bo'n bosibl, i gynyddu eu ffrydiau ariannu. Mae cyfyngiadau o ran capasiti yn amrywio'n sylweddol ar draws yr awdurdod. Rydym wrthi'n trafod ein cyllid grant penodol gyda Llywodraeth Cymru ac yn trafod y potensial i symud rhywfaint i mewn i'r cyllid craidd, er mwyn ein galluogi i liniaru problemau ehangach o ran costau.

Beth yw'r sefyllfa o ran negodi contractau gyda darparwyr?

Mae'r tîm comisiynu yn ymgysylltu â darparwyr cyn y flwyddyn ariannol. Wrth osod y gyllideb am y flwyddyn ariannol hon, rhoddwyd amcangyfrif cost o £1.9m; Eleni rydym wedi gwneud yn dda i gadw'r ffigur hwnnw, ond erbyn hyn mae nifer o ddarparwyr yn dod at yr awdurdod er mwyn cael syniad ynglŷn â'r flwyddyn nesaf, yn enwedig mewn perthynas â'r cynnydd yn y Cyflog Byw Gwirioneddol sy'n cynyddu o £1 y flwyddyn nesaf. At hyn, mae'r pwysau o ran costau ynni, ac mae darparwyr cartrefi gofal yn wynebu cynnydd o 200-300% mewn premiymau yswiriant. Eleni, rydym yn teimlo'n hyderus y gallwn gynnal y £1.9m ond mae'n edrych yn

debyg y bydd y flwyddyn nesaf yn fwy heriol ac rydym yn ymateb drwy fynnu bod darparwyr yn edrych ar feysydd y gallant eu hunain leihau costau.

Pam fod y grant cyfleusterau Anabledd yn tanwario cymaint?

Mae hyn yn ymwneud yn benodol â'r gyllideb gyfalaf. Mae'r pwysau yno yn cael ei wrthbwysu'n sylweddol gan y rhyddhad posibl yn y gyllideb ar gyfer DFGs. Gellir egluro gyda cyfnod Covid - llithrwyd cyllideb gyfalaf y DFGs ymlaen yn ystod Covid. Mae'r gwasanaeth wedi cymryd dadansoddiad o'r galw presennol gan nodi bod swm y gyllideb sydd wedi cronni dros y 2-3 blynedd diwethaf yn fwy na'r hyn sydd ei angen o ystyried y galw presennol.

Beth yw ein neges i ysgolion ynglŷn â'u strategaethau buddsoddi? Sut bydd diffygion yn cael eu hariannu?

Mae trafodaethau wedi cael eu cynnal gyda phenaethiaid ysgolion yn ystod yr wythnosau diwethaf ynglŷn â sefyllfa'r gyllideb, maent yn llawn ymwybodol o'r strategaeth ar gyfer y flwyddyn nesaf a'r tymor canolig. Y neges gyffredinol yw mai doeth yw pwysleisio ataliad ac edrych ar gynaliadwyedd eu strwythurau staffio parhaus, yn enwedig lle mae diffygion cynhenid o ran cyllidebau mewn rhai ysgolion. Er mwyn mynd i'r afael â'r rheiny, bydd cynlluniau adfer cyllideb yn cael eu cytuno gyda'r Aelod Cabinet Byddant yn canolbwyntio ar gymedroli costau neu edrych ar strwythurau staffio cynaliadwy, gan nodi mai staffio yw cyfran uchel iawn o gostau ysgolion. Nid oes datrysiaid cyflym: bydd cynlluniau adfer yn ceisio dod â'r ysgolion i sefyllfa gynaliadwy dros nifer o flynyddoedd.

Os yw ysgolion wedi nodi anghenion buddsoddi o fewn eu cynlluniau adfer, beth yw'r effaith bosib os na fyddant yn gwario ar hyn nawr?

Mae cysylltiad uniongyrchol rhwng gweithgareddau gwella a'r gofyn am fuddsoddiad mewn staff ychwanegol ar brydiau; yn aml iawn mae hyn mewn perthynas â chyllid grant. O ystyried sut mae AD ysgol yn gweithio mae cyfnodau penodol o amser yn ystod y flwyddyn pan fydd sgysiau ynghylch penderfyniadau staffio yn gallu digwydd. Mae rhai ysgolion wedi gwneud cynlluniau i wneud buddsoddiadau cyfalaf o ran corff a ffabrig yr ysgol: mae gennym ysgolion oedd eisiau creu mwy o leoliadau ar gyfer dysgu awyr agored - dyma'r math cywir o bethau i'w stopio a'u trafod, ac rydym yn gwneud hynny. Felly mae'r math o fuddsoddiad yn llywio'r trafodaethau sy'n digwydd. Os yw'r gwaith yn cael ei ariannu gan grant neu arian ychwanegol yna bydd yn parhau, ond o ran buddsoddiad cyfalaf, rydym yn dweud fod angen oedi a meddwl sut i ddefnyddio'r arian yn y dyfodol.

O ran thema barhaus problemau staffio, pa mor ddibynnol ydym ni ar ewyllys da? A oes data sy'n dangos dibyniaeth ar TOIL heb ei gymryd (Time Off In Lieu)?

Oes, mae'r ffigyrau yma gennym. Mater i Benaethiaid Gwasanaeth, i raddau helaeth, yw edrych ar y ffactorau lleol sy'n effeithio ar eu gwasanaethau, a delio gydag unrhyw ewyllys da sy'n cael ei ddefnyddio. Nid yw hyn yn gynaliadwy. Mae'r polisi sydd ar waith yn galluogi rheolwyr i reoli TOIL, gan mai dim ond hyn a hyn y gellir ei gronni, a chynnig ffordd gynaliadwy ymlaen er mwyn lleihau'r oriau yn unol â gofynion gwasanaeth. Gan fod cyfyngiad ar yr hyn y gellir ei gronni, ni fyddem yn dibynnu ar ewyllys da.

Mae lleoliadau cost uchel yn dueddol o fod â llawer o staff, felly sut mae'r anawsterau recriwtio a chadw staff presennol yn effeithio arnynt?

Mae'r darlun yn amrywio o wasanaeth i wasanaeth felly nid hawdd yw rhoi ateb cyffredinol.

Gan fod y ffigwr ar gyfer Gwasanaethau Plant mor fawr dyw'r dadansoddiad ddim o fudd o ran craffu.

Ie, byddwn yn dadansoddi mwy ar y ffigyrau yma yn y dyfodol. Y gyrrwr mwyaf o ran gorwariant o fewn Gwasanaethau Plant yw lleoliadau preswyl cost uchel. Mae eu natur gymhleth yn gyrru'r gost. Gall lleoliadau allanol gostio dros £1m y plentyn, bob blwyddyn, ar sail yr angen a asesir gan ofal cymdeithasol a phan mae angen clinigol, ar y cyd ag ABHB. Mae'r cyflenwad o fewn y farchnad yn isel ond mae'r galw yn uchel iawn, ac mae hyn yn broblem sydd i'w gweld yn genedlaethol. Mae staffio drwy ddefnyddio asiantaeth yn rhywbeth arall sy'n gyrru cost gan fod staff asiantaeth yn costio mwy na staff sydd ar ein cyflogres.

Tabl 5, Adran 7.2, arbedion i'r gyllideb a ragwelir ar gyfer y flwyddyn nesaf: sut mae dal hyder yn y rhain o ystyried y sefyllfa bresennol a'r gorwariant?

Cyfrifoldeb y prif swyddogion yw cyflwyno cynigion o ran cwrdd a'u targedau yng nghyd-destun y cynlluniau adfer cyllideb. Cymedroldeb costau yw'r peth anoddaf i'w gyflawni yn yr amgylchedd presennol ond mae cyfleoedd i gael gafael ar gyllid pellach a gweithio gyda chyd-bartneriaid. Mae'n ddefnyddiol nodi bod gwerth dros £1.5m o gynigion wedi eu nodi fel risg isel felly mae rhywfaint o hyder bod cyfarwyddiaethau yn cynnal pwysau ar y rheini. Y paragraff allweddol yw'r defnydd o £2.18m 'o leiaf' – mae lle i gynyddu hyn, ac rydym yn gobeithio gweld hyn yn digwydd. Bydd timau cyllid yn cefnogi cyfarwyddiaethau i nodi meysydd pellach y gellir cynyddu incwm neu greu arbedion cost wrth symud ymlaen.

Yn adroddiad Mis 4 roedd 2000 awr o angen o ran gofal cymdeithasol nad oedd yn cael ei ddiwallu bob wythnos yn y sir. Oes angen i ni wneud mwy er mwyn bod yn realistig gyda'n trigolion ynglŷn â'r sefyllfa honno a chwilio am fwy o ymgysylltu cymunedol lle mae hynny'n bosib, a gwneud mwy i gefnogi atal?

Mae'r ffactorau yma'n bwydo i mewn i'r sgysiau parhaus gyda Gofal Cymdeithasol o ran sut y gallai'r gwasanaeth edrych. Mae ymgysylltu â'r gymuned yn digwydd fel rhan o'r broses o osod y gyllideb. Mae'r angen sydd heb ei ddiwallu yn amlweddol o ran sut mae wedi digwydd e.e. mae cleifion sy'n cael eu rhyddhau o'r ysbytai yn syrthio o dan gofal cymdeithasol er mwyn llenwi'r bwch, ac mae argyfwng recriwtio a chadw staff o fewn y maes gofal cymdeithasol, felly mae'n anodd cael pecynnau gofal. Mae gennym eisoes gysylltiadau cymunedol cryf e.e. y prosiect Cysylltiadau Cymunedol sy'n edrych ar atal ond dim ond hyn a hyn y gall y prosiect yma ei wneud: mae'r galw'n fwy na'r hyn y gall ein gwasanaeth ei ddarparu, felly dyma'r rheswm dros yr oriau sydd heb eu diwallu. Fodd bynnag, efallai y gellid cael cefnogaeth anuniongyrchol ar gyfer rhai o'r achosion yma.

Crynodeb y Cadeirydd:

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion am eu gwaith, ac i'r Aelod Cabinet Rachel Garrick am fynychu heddiw i annerch y pwyllgor. Pwysleisiodd y Cynghorydd Garrick bod ganddi bolisi drws agored pe byddai unrhyw Gynghorydd am drafod materion sy'n ymwneud â'r gyllideb ymhellach. Llongyfarchodd y Cadeirydd Jonathan Davies ar ei benodiad yn Bennaeth Cyllid.

Nododd Peter Davies y bydd Cyllid yn edrych ar yr amseriad ar gyfer Mis 9 i wneud yn siŵr ei fod yn dod ymlaen mor amserol â phosib.

Cytunodd swyddogion i fynd â'r sylwadau yn ôl o ran sut maent yn adrodd h.y. darparu dadansoddiad manylach o wariant Gofal Cymdeithasol yn y dyfodol.

Cytunodd y pwyllgor i gynnig yr adroddiad.

6. Blaenraglen Waith y Pwyllgor Craffu Perfformiad a Throsolwg

Bydd cyfarfod arbennig yn cael ei drefnu i graffu ar gynigion y gyllideb. Bydd aelodau'n cael eu hanfon drwy e-bost gyda dyddiadau awgrymedig ar ôl y cyfarfod.

7. Cynllun Gwaith y Cabinet a'r Cyngor

8. I gadarnhau cofnodion cyfarfodydd blaenorol:

Cadarnhawyd a llofnodwyd y cofnodion fel cofnod cywir.

9. Cyfarfod nesaf: 15 Rhagfyr 2022

Ni fydd y Cynghorydd Bond ar gael.